

Basged Trysoriau

Amcanion Dysgu:

Archwilio gwrthrychau sy'n cael eu hailddefnyddio bob dydd yn ddiogel gan ddefnyddio cyffyrddiad, golwg, sŵn a symudiad.

Dechrau datblygu chwilfrydedd, canolbwyntio a dewis trwy chwarae synhwyraidd penagored.

Cefnogi sgiliau echddygol mân trwy estyn, gafael, dal, eu rhoi yn y geg, taro a throi gwrthrychau.





Gwybodaeth Ymarferydd:

Gall teganau fod yn ddrud i deuluoedd a lleoliadau, ac mae llawer wedi eu gwneud o ddeunyddiau sydd yn anodd eu hailgylchu, er enghraifft, deunydd pecynnu plastig a batris. Mae'r teganau hyn yn gallu bod yn niweidiol i'r amgylchedd.

Nid oes angen i bob adnodd fflachio, canu na bod yn newydd sbon ar gyfer babanod a phlant ifanc; yn aml iawn, mae ganddyn nhw fwy o ddiddordeb mewn gwrthrychau go iawn maen nhw'n gallu eu dal, eu rhoi y eu ceg, eu taro, eu troi a'u harchwilio yn eu ffordd eu hunain.

Mae basged trysorau wedi eu hailddefnyddio yn rhoi profiad synhwyrdd cyfoethog i blant o dan 2 oed ac yn dangos y gall eitemau bob dydd gael ail fywyd cyn iddyn nhw gael eu taflu i ffwrdd.



Beth yw basged drysor?

Mae basged drysor yn gasgliad o wrthrychau bob dydd a deunyddiau naturiol wedi'u rhoi mewn basged fas i fabanod a phlant bach eu harchwilio gan ddefnyddio eu holl synhwyrddau.

Yn lle teganau plastig, mae basged drysor yn cynnwys amrywiaeth o wrthrychau diogel a diddorol gyda gwahanol weadau, siapiau, pwysau, synau ac arogleuon.





Pam mae basgedi trysor yn bwysig?

Datblygiad synhwyrdd – mae plant yn archwilio trwy gyffwrdd, golwg, arogl, clyw a blas (mae archwilio'r geg yn gyffredin mewn babanod).

Chwilfrydedd a chanolbwyntio – mae plant yn dewis yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt ac yn ymchwilio'n annibynnol.

Sgiliau echddygol manwl – codi, gafael, trosglwyddo a thrin gwrthrychau.

Datblygiad iaith – gall oedolion gyflwyno geirfa ddisgrifiadol fel llyfn, garw, trwm, oer, a sgleiniog.

Chwarae sgema a datrys problemau – mae plant yn darganfod sut mae gwrthrychau'n teimlo, yn symud, yn cysylltu ac yn gwneud synau.



Sut i ddefnyddio basged drysor

- Eisteddwch y plentyn yn gyfforddus lle gallant gyrraedd y fasged.
- Gadewch iddynt ddewis gwrthrychau'n rhydd.
- Arsylwch a rhyngweithio dim ond pan fo'n briodol yn hytrach na chyfarwyddo'r chwarae.
- Cylchdrowch eitemau'n rheolaidd i gynnal diddordeb.
- Gwnewch yn siŵr bod pob gwrthrych yn lân, yn ddiogel ac yn ddigon mawr i beidio â bod yn berygl tagu.

Nodyn atgoffa diogelwch – Dylid gwirio pob eitem cyn pob defnydd, gan sicrhau eu bod yn lân ac yn ddigon mawr i beidio â bod yn berygl tagu, dylent hefyd fod yn rhydd o ymylon miniog neu rannau rhydd, a'u defnyddio dan oruchwyliaeth agos gan oedolion.





Eitemau i'w cynnwys yn eich basged trysorau:

Tiwbiau cardfwrdd glân: defnyddiol ar gyfer rhoio, postio, taro ac edrych drwyddynt, gan gefnogi chwilfrydedd a chydysymud rhwng y dwylo a'r llygaid.

Darnau ffabrig bach: mae gweadau gwahanol fel cotwm, cnu, satin neu ddenim yn rhoi cyfle i fabanod grensian, mwytho a theimlo deunyddiau gwahanol.

Llwyau neu ysbodolau pren/plastig : hawdd i ddwylo bach eu bachu ac yn ddiogel ar gyfer taro, curo ac archwilio sŵn o dan oruchwyliaeth.

Llwyau mesur metel: sgleiniog, oer a swnllyd, sy'n helpu plant i sylwi ar adlewyrchiadau, tymheredd, pwysau ac achos ac effaith.

Caeadon plastig glân o gynwysyddion mawr: golau, lliwgar a hawdd i'w bachu, gan gefnogi estyn, dal a didoli syml yn ôl maint a lliw.

Cyrc mawr neu fatiau corc wedi eu torri'n ddarnau diogel: ym ysgafn ac yn gynnes i'w cyffwrdd, gan gynnig gwead naturiol sy'n teimlo'n wahanol i blastig neu fetel.

Hen sgarffiau neu gadachau mwslin: yn ddefnyddiol ar gyfer chwarae pîp po, tynnu, chwifio a chuddio gwrthrychau, annog cyfathrebu cynnar a rhagweld.

Brwshys glân, fel brwshys pastai neu frwshys ewinedd meddal: cynigiwch y gwrychyn a'r ddolen i fabanod eu harchwilio gyda'u bysedd, sy'n cefnogi ymwybyddiaeth synhwyraidd.

Tuniau bach gyda chaeaddon cadarn: gellir eu taro, eu rhoio a'u llenwi gydag eitemau diogel gan oedolyn i greu eitemau sŵn ysgwyd tawel.

Sbwng naturiol: meddal, ysgafn gyda gwead, sy'n rhoi deunydd synhwyraidd ysgafn i fabanod wasgu, pwysu ac archwilio gyda'u dwylo.

Poteli plastig glân gyda rhywbeth swnllyd y tu mewn, fel pasta: defnyddiol fel siglwyr cartref er mwyn i fabanod allu archwilio sain, symudiad ac achos ac effaith pan fydd y caead wedi ei osod yn gadarn.

Moch coed: diddorol i edrych arnynt a'u cyffwrdd, gan gynnig gwrthrych naturiol gyda siâp, patrwm a gwead i'w archwilio o dan oruchwyliaeth ofalus.

Cylchynau llenni mawr pren: meddal, cryf a hawdd i'w dal, sy'n cefnogi gafael, trosglwyddo o un llaw i'r llall a'u rhoi yn y geg i'w harchwilio.

